Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 20 Tachwedd 2015

Rhif Union: 01824 712568

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD LLUN, 30 TACHWEDD 2015** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUDD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**2 DATGANIAD CYSYLLTIAD**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**CAIS I'W YSTYRIED -**

**3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS I AMRYWIO TRWYDDED SAFLE - DEVINE, PWLL Y GRAWYS, DINBYCH** (Tudalennau 5 - 20)

Ystyried cais i amrywio Trwydded Eiddo a gyflwynwyd yn unol ag Adran 34 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (amlinelliad o'r cais a phapurau cysylltiedig ynghlwm).

Nodwch y drefn i'w chymryd gan yr Is-Bwyllgor (sydd ynghlwm wrth y rhaglen hon).

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Bill Cowie | Cefyn Williams |
| Stuart Davies | |

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

## Y DREFN AR GYFER CEISIADAU A WNEIR DAN Y DDEDDF TRWYDDEDU 2003

| Cam | Disgrifiad |
|---|---|
| 1. | Mae Cadeirydd yr Is-Bwyllgor Trwyddedu yn agor y Gwrandawiad ac yn croesawu pawb sy’n bresennol. Mae’n cyflwyno’r Cydweithwyr ar yr Is-Bwyllgor a’r Swyddogion sy’n Bresennol. |
| 2. | Mae’r Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno’r Cais. |
| 3. | Mae’r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu’r Cynrychiolydd Penodedig) i gyflwyno’r Cais. |
| 4. | Mae’r Cadeirydd yn gwahodd unrhyw Awdurdodau Cyfrifol (e.e. Heddlu, Gwasanaeth Tân) i gyflwyno eu sylwadau. |
| 5. | Mae’r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau’r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i’r Ymgeisydd neu’r Awdurdodau Cyfrifol. |
| 6. | Mae’r Cadeirydd yn gwahodd y Rhai â Diddordeb i gyflwyno eu sylwadau. |
| 7. | Mae’r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau’r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i’r Rhai â Diddordeb ac i egluro unrhyw bwyntiau gyda’r Ymgeisydd. |
| 8. | Mae’r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu’r Cynrychiolydd Penodedig) i wneud datganiad terfynol. |
| 9. | Bydd Aelodau’r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn ymneilltuo i ystyried eu penderfyniad, gyda’r Clerc i’r Gwrandawiad a’r Ymgynghorydd Cyfreithiol i’w canlyn. |
| 10. | Mae Aelodau’r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn dychwelyd gyda’u penderfyniad ar y Cais, gyda rhesymau i’w gefnogi. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Is-bwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 30 Tachwedd 2015 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) 01824 706451 trwyddedu@sirddinbych.gov.uk |
| **TESTUN:** | **Deddf Trwyddedu 2003**<br>**Cais i Amrywio Trwydded Eiddo Bresennol:**<br>**Devine, Lenton Pool, Dinbych** |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Mae'r Awdurdod Cynllunio wedi derbyn cais i Amrywio Trwydded Eiddo Bresennol, a gyflwynwyd yn unol ag Adran 34 o Ddeddf Trwyddedu 2003, ar gyfer Devine, Lenton Pool, Dinbych. O ganlyniad i'r ymgynghoriad angenrheidiol a'r Hysbysiad Cyhoeddus gofynnol, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn sylwadau perthnasol sy'n gwrthwynebu'r Cais. Mae angen i'r Is-bwyllgor benderfynu ar y cais, gan ystyried yr holl ffeithiau/tystiolaeth perthnasol.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Cais yw hwn am Amrywio Trwydded Eiddo. Mae'r sylwadau a gafwyd yn ymwneud yn bennaf ag Atal Niwsans Cyhoeddus ac Atal Trosedd ac Anhrefn.

2.2 Atgoffir yr Aelodau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir fod yn unol â (i) Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor a (ii) Chanllaw a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

2.3 Gan weithredu yn rhinwedd Awdurdod Trwyddedu, mae'n rhaid i Aelodau geisio hybu'r Amcanion Trwyddedu, ac os yw Aelodau'n ystyried bod materion yn gysylltiedig ag un neu fwy o'r amcanion, gallant arfer eu disgresiwn.

2.4 Atgoffir Aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu na allant arfer eu disgresiwn

mewn unrhyw achos, am eu bod yn ystyried bod hynny'n ddymunol, a dylid rhoi rheswm (rhesymau) dros unrhyw benderfyniad a wneir, neu os penderfynir gwyro mewn unrhyw ffordd o'r Protocol, y Polisi neu'r Canllawiau.

## 3. ARGYMHELLION

### 3.1 Penderfyniad yr Is-Bwyllgor

Mae'n rhaid i'r Is-Bwyllgor, o ystyried y sylwadau a wnaed, gymryd y camau (isod) y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu:

Gall yr Is-Bwyllgor:

- Ganiatáu'r Cais i Amrywio fel ag y'i cyflwynwyd
- Gosod unrhyw amodau, i'r graddau y cred yr Awdurdod eu bod yn angenrheidiol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu
- Gwrthod y cais

## 4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Ar 17 Medi 2015, derbyniodd yr Awdurdod Trwyddedu gais i Amrywio Trwydded Eiddo bresennol. Cyflwynwyd y Cais gan John Sydney Wynne ar gyfer Devine sydd wedi'i leoli yn Lenton Pool, Dinbych.

4.2 Mae'r Drwydded Eiddo gyfredol yn awdurdodi'r gweithgareddau canlynol:

| GWEITHGAREDD TRWYDDEDADWY | DYDDIAU PERTHNASOL | AMSER O | AMSER I |
|---|---|---|---|
| Cyflenwi Alcohol (i'w yfed yn yr eiddo yn unig) | Llun - Sul | 12:30 | 00:30 |
| Chwarae Cerddoriaeth wedi'i Recordio | Llun - Sul | 12:30 | 00:30 |
| Lluniaeth Gyda'r Hwyr (Tu mewn a Thu allan)* | Llun - Sul | 23:00 | 00:30 |

(*Dim ond rhwng 23:00 a 05:00 y mae cyflenwi Lluniaeth Gyda'r Hwyr yn dod yn weithgaredd trwyddedadwy)

4.3 Mae'r Ymgeisydd bellach wedi gofyn am awdurdodiad i ddarparu'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

| GWEITHGAREDD TRWYDDEDADWY | DYDDIAU PERTHNASOL | AMSER O | AMSER I |
|---|---|---|---|
| Darparu Cerddoriaeth Fyw<br>(Tu mewn) | Gwener – Sul<br>Gwyliau Cyhoeddus | 20:00<br>20:00 | 02:00<br>02:00 |
| Darparu Cerddoriaeth wedi'i Recordio<br>(Tu mewn) | Iau – Sul<br>Gwyliau Cyhoeddus | 20:00<br>20:00 | 02:00<br>02:00 |
| Cyflenwi Alcohol (i'w yfed yn yr eiddo ac oddi arno) | Sul – Iau<br>Gwener a Sadwrn<br>Gwyliau Cyhoeddus | 11:59<br>11:59<br>11:59 | 01:00<br>02:00<br>02:00 |
| Lluniaeth Gyda'r Hwyr<br>(Tu mewn a Thu allan) | Sul – Iau<br>Gwener a Sadwrn<br>Gwyliau Cyhoeddus | 23:00<br>23:00<br>23:00 | 01:00<br>02:00<br>02:00 |

4.4 Deddf Trwyddedu 2003 – gwybodaeth/gofynion

Pan gyflwynir cais i amrywio trwydded eiddo, mae'n rhaid rhoi copi llawn i bob un o'r Awdurdodau Cyfrifol, sef:

- Yr Heddlu
- Tân
- Cynllunio
- Safonau Masnach
- Iechyd yr Amgylchedd
- Iechyd a Diogelwch
- Gwasanaethau Plant
- Awdurdod Iechyd
- Awdurdod Trwyddedu

4.5 Hysbysiad Cyhoeddus

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd roi hysbysiad mewn papur lleol newydd a gosod rhybudd ar neu gerllaw'r eiddo. Mae hyn yn galluogi unigolion, corff neu fusnes i anfon sylwadau perthnasol i mewn. Fodd bynnag, bydd angen iddynt ddangos fod eu sylwadau'n ymwneud â hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

4.6 Sylwadau Perthnasol

Mae sylwadau y bernir eu bod yn berthnasol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cael eu derbyn o fewn y cyfnod 28-diwrnod

statudol:

4.6.1 Derbyniwyd un sylw ysgrifenedig gan barti â diddordeb mewn ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus. Mae'r sylw'n gysylltiedig â niwsans sŵn posibl o ganlyniad i gerddoriaeth uchel, ynghyd â'r aflonyddwch a all gael ei achosi gan bobl yn gadael yr eiddo yn hwyr y nos ac yn ystod yr oriau mân. Anfonwyd manylion y sylw at yr Ymgeisydd a gwellir gweld copi ohono yn Atodiad A **(dogfen gyfyngedig)** yr adroddiad hwn.

4.6.2 Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi anfon sylwadau ynglŷn â'r Cais. Fodd bynnag, wedi trafodaethau gyda'r Ymgeisydd, nodwyd nifer o amodau a luniwyd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ymhellach, ac ar y sail hon, mae Heddlu Gogledd Cymru yn gofyn, pe bai'r Aelodau o blaid caniatáu'r cais, eu bod yn ystyried ymgorffori'r amodau hyn yn Rhestr Weithredu'r eiddo. Gall yr Aelodau weld yr amodau yn Atodiad B **(dogfen gyfyngedig)** yr adroddiad hwn.

4.6.3 Mae Swyddogion wedi cyfarfod yr Ymgeisydd â'r Sawl sydd â Diddordeb gyda golwg ar ddod i gytundeb; ond ar adeg paratoi'r adroddiad hwn, maent yn dal i drafod.

4.6.4 Mae Awdurdod Cynllunio'r Cyngor wedi hysbysu'r Adran Drwyddedu fod rhywfaint o anghysondeb ar hyn o bryd rhwng defnydd awdurdodedig presennol yr eiddo a'r hyn a gynigir o fewn y Cais. Mae'r Ymgeisydd yn ymwybodol o'r sefyllfa ac wedi bod mewn cysylltiad â'r swyddogion cynllunio.

4.7 Gall yr Aelodau ddymuno cyfeirio at adrannau 13.57 a 13.58 o'r Canllawiau Diwygiedig a gyhoeddwyd o dan Adan 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 ac Adran 4 o Ddatganid Polisi Trwyddeu'r Cyngor wrth ystyried y materion hyn.

4.8 **<u>Amcanion Trwyddedu / Canllawiau / Ystyriaethau Polisi</u>**

Mae'r sylwadau canlynol yn gysylltiedig â'r amcanion trwyddedu.

Cyfeirir yr Is-Bwyllgor, mewn perthynas â'r Cais hwn, at y Canllawiau a gyhoeddwyd o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003:

- Atal Trosedd ac Anhrefn
- Atal Niwsans Cyhoeddus **Adran 2.14 i 2.20**

4.9 <u>Datganiad Polisi Trwyddedu</u>
Cyfeirir yr Is-Bwyllgor, mewn perthynas â'r Cais hwn, at Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor:

- Atal Trosedd ac Anhrefn **Adran 5**
- Atal Niwsans Cyhoeddus **Adran 7**

4.10 Yn olaf, atgoffir yr Aelodau fod yn rhaid iddynt hefyd, wrth benderfynu ar y cais yn unol â'r Ddeddf Trwyddedu, ystyried –

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy'n gosod dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anrhefn yn yr ardal
- Rheolau'r gyfraith gyffredin o ran cyfiawnder naturiol
- Darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998

## 5.0 SYLWADAU'R SWYDDOGION

5.1 Mae'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cyflwyno'r sylwadau canlynol i helpu'r Aelodau yn eu hystyriaethau.

5.2 Mae rhestr weithredu wedi'i chwblhau yn ofyniad i Drwyddedau Eiddo newydd a rhai a amrywiwyd a gall yr Aelodau edrych ar y camau a gynigir yn Atodiad C **(dogfen gyfyngedig)** yr adroddiad hwn; mae'r rhain yn ychwanegol at y rhai sydd yn y drwydded bresennol, ac mae manylion y rheiny yn Atodiad D **(dogfen gyfyngedig)** .

5.3 O ystyried y pryderon a godwyd gan y Parti â Diddordeb, bydd yr Aelodau'n dymuno holi'r Ymgeisydd (neu eu cynrychiolydd) i wneud yn siŵr y bydd dulliau ataliol yn cael eu defnyddio, i sicrhau fod lefelau'r gerddoriaeth yn cael eu monitro'n ofalus a bod camau priodol wedi'u cymryd i annog y cwsmeriaid i adael yr eiddo'n dawel a chan ystyried pobl eraill.

5.4 Atgoffir yr Aelodau, o Hydref 2012 pan ddaeth y Ddeddf Cerddoriaeth Fyw i rym, fod y gofyniad trwyddedu i gael cerddoriaeth fyw rhwng 08:00 a 23:00 wedi'i dynnu mewn rhai amgylchiadau. Gall yr Aelodau gyfeirio at Adran 15 o'r Canllawiau i'r Ddeddf Drwyddedu i gael diffiniad o'r eithriadau hyn.

5.5 Yn olaf, atgoffir yr Aelodau, er bod y sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Gogledd Cymru wedi cael cytundeb yr Ymgeisydd, dim ond Aelodau Is-Bwyllgor all ychwanegu unrhyw newidiadau i'r cais gwreiddiol megis amodau ychwanegol, i'r Drwydded Eiddo. Yr Aelodau hyn hefyd gaiff ystyried a ydynt yn creu fod unrhyw amod(au) a awgrymwyd yn angenrheidiol ac yn briodol.

## 6.0 CRYNODEB

6.1 Dylai Aelodau ystyried y Canllaw a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor, gan gyfeirio'n arbennig at yr elfennau hynny y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn. Caiff yr Aelodau eu hatgoffa na ddylent wyro oddi wrth y Canllaw a'r Polisi, ac eithrio bod tystiolaeth/rheswm da dros wneud hynny.

6.2 Mae'n rhaid i'r Aelodau benderfynu a fyddai caniatau'r Cais hwn fel y mae yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu statudol, yn fwy penodol, atal niwsans cyhoeddus ac atal trosedd ac anhrefn.

6.3 Yng ngoleuni'r sylwadau a dderbyniwyd, bydd angen i'r Aelodau roi ystyriaeth fanwl i'r Cais hwn i Amrywio Trwydded Eiddo.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag